

Arolygiad â Phwyslais Penodol o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Regis Healthcare Limited

Ward Brenin

Dyddiad arolygu: 9 – 11 Rhagfyr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mawrth 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Cefndir y gwasanaeth	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	16
4.	Beth nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	19
	Atodiad A – Cynllun gwella.....	20

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd â phwyslais penodol o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Regis Ebbw Vale ar noson 9 Rhagfyr 2018 a'r diwrnodau canlynol, sef 10 ac 11 Rhagfyr.

Dyma'r pumed arolygiad o'r gwasanaeth hwn ers mis Mawrth 2018 a nodwyd pryderon sylweddol yn ystod pob un o'r arolygiadau blaenorol. Yn dilyn yr arolygiad ym mis Medi 2018, cyhoeddwyd Hysbysiad o Gynnig i ddiddymu cofrestriad Regis Healthcare ar 26 Medi 2018. Yn unol â'r broses gyfreithiol, anfonodd Regis Healthcare sylwadau ysgrifenedig i AGIC ar 23 Hydref 2018.

Felly, diben yr arolygiad hwn oedd gwerthuso'r sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan Regis Healthcare ac asesu'r cynnydd a wnaed o ran argymhellion yr arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2018.

Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Brenin - Gwasanaeth Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Blant a'r Glasoed

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC a dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd y darparwr cofrestredig wedi cwblhau proses i recriwtio nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd a gafodd wared ar yr angen i ddefnyddio staff asiantaeth i lenwi rotas staffio. Gwelsom enghreifftiau proffesiynol a gofalgar o ryngweithio rhwng aelodau o'r staff a'r cleifion.

Fodd bynnag, mae angen gwelliannau sylweddol o hyd wrth gwblhau dogfennaeth glinigol er mwyn cofnodi'r gofal a ddarperir yn yr ysbyty yn gywir.

O ystyried y meysydd y mae angen eu gwella o hyd, nid ydym wedi cael sicrwydd llawn bod Regis Healthcare yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Mae angen i AGIC gael sicrwydd bod materion sy'n hollbwysig o ran gofal a diogelwch cleifion yn cael sylw ar unwaith. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod camau gweithredu yn gynaliadwy ac y cânt eu cynnal drwy drefniadau llywodraethu sefydledig.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Recriwtio gweithlu cyson
- Cwblhau hyfforddiant gorfodol
- Cofnodi meddyginiaeth PRN¹
- Cofnodi absenoldebau adran 17.

¹ Rhoddir meddyginiaeth PRN (pro re nata) "yn ôl yr angen" ac nid yw'n feddyginiaeth a roddir yn rheolaidd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y gweithdrefnau ar gyfer cadw cofnodion clinigol
- Y broses ar gyfer cwblhau dogfennaeth cynllunio gofal
- Y broses ar gyfer cwblhau dogfennaeth llonyddu ac atal
- Y broses ar gyfer cwblhau cofnodion cyfoes cleifion

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym achosion o dorri rheoliadau mewn perthynas â'r materion a restrir uchod. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Bydd AGIC yn mynd ati nawr i ddefnyddio canfyddiadau'r arolygiad hwn ac ymateb y darparwr, ynghyd â'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r Hysbysiad o Gynnig i ddiddymu'r cofrestriad, i lywio'r penderfyniad o ran p'un a ddylai gadarnhau'r Hysbysiad o Gynnig i ddiddymu a chyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad i ddiddymu, neu dderbyn y sylwadau a gyflwynwyd gan Regis Healthcare.

Yn y cyfamser, mae Regis Healthcare yn parhau'n ddarostyngedig i drefniadau craffu ar y lefel uchaf a bydd AGIC yn monitro'r gwasanaeth yn agos ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chomisiynwyr y cleifion sydd yn yr ysbyty.

3. Cefndir y gwasanaeth

Mae Regis Healthcare Limited yn Ysbyty Annibynnol ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn Ysbyty Glynebwy, Hillside, Gwent NP23 5YA.

Mae gan y gwasanaeth ddwy ward, sef Ebbw a Brenin, sydd ill dwy yn cynnwys 12 o welyau ac yn cynnig gofal i bobl ifanc o dan 18 oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd Ebbw ar gau.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 15 Ionawr 2014.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff a oedd yn cynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Meddygol, Meddyg Ward, Rheolwr Ward, Dirprwy Rheolwr Ward, nyrsys cofrestredig (nyrsys iechyd meddwl cofrestredig (RMN) a nyrsys cyffredinol cofrestredig (RGN)), Uwch Weithwyr Cymorth a Gweithwyr Cymorth.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys seiciatryddion, seicolegydd, seicolegwyr cynorthwyol, therapyddion galwedigaethol, cynorthwywyr technegol, athrawon a chydlynwyr gweithgareddau. Roedd tîm gweinyddol mawr hefyd a oedd yn helpu'r timau clinigol i redeg yr ysbyty o ddydd i ddydd.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y ddogfennaeth gofal a chofnodion cysylltiedig eraill yn yr ysbyty ar bapur. Fel y nodwyd mewn arolygiadau blaenorol, roedd gan yr ysbyty nifer o ffeiliau ar gyfer pob claf unigol. Roedd y cofnodion yn anhrefnus ac yn dameidiog a oedd yn golygu ei bod yn anodd iawn i staff yr ysbyty a thîm arolygu AGIC edrych drwy'r cofnodion a dod o hyd i wybodaeth ynddynt. Nid oedd modd darllen ffeil claf a nodi'n hawdd pa ofal yr oedd ei angen ar y claf hwnnw neu yr oedd y claf hwnnw yn ei gael.

Er i ni weld rhai dogfennau cynllunio gofal cyfredol a oedd wedi'u hysgrifennu'n dda yng nghofnodion rhai cleifion, nid oedd cyfran fawr o'r ddogfennaeth yn gyfredol. Roedd anghysondebau sylweddol yn y wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi, ac nid oedd rhai o'r dogfennau yn cofnodi'r camau gweithredu gofynnol, y person cyfrifol, yr amserlen na'r dyddiad adolygu yn glir. Nid oedd y cynlluniau gofal bob amser yn cyfeirio at ganllawiau proffesiynol cenedlaethol, megis canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd Gofal (NICE) a Chod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, nac yn adlewyrchu'r canllawiau hynny.

Nid oedd y darparwr cofrestredig wedi cymeradwyo templed penodol ar gyfer cynlluniau gofal yn yr ysbyty, felly roedd nifer o wahanol fformatau a oedd yn cymhlethu'r broses o adolygu'r gofal a ddarperir ymhellach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn drefnus a'u bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cytunnir ar fformat ar gyfer cynlluniau gofal yn yr ysbyty ac y caiff y fformat hwn ei ddefnyddio.

Gwnaethom adolygu cofnodion a dogfennaeth cynllunio gofal tri chlaf yn fanwl.

Ar gyfer Claf A, roedd dau gynllun gofal wedi'u hysgrifennu'n dda ar waith; roeddent yn ymdrin ag iechyd corfforol a therapi electro-orfodol (ECT). Roedd y ddau gynllun yn dilyn fformat clir ac yn dogfennu'r anghenion a nodwyd, y nodau, yr ymyriadau a'r trefniadau gwerthuso. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau gofal yn nodi pwy a'u hysgrifennodd nac unrhyw ddyddiadau adolygu. Roedd cynlluniau gofal hŷn ar gyfer y claf hwn e.e. dillad gwrthglymu a defnyddio'r

ystafell ymolchi, yn nodi dyddiadau adolygu, ond nid oeddent mor fanwl ac roedd yn anos eu dilyn. Roedd cofnodion y claf yn cynnwys dogfennaeth a oedd yn ymwneud ag ymddygiadau a oedd yn cyfyngu ar ei ddeiet, bwydo drwy diwb nasogastrig (NG) a rheoli pwysau. Fodd bynnag, nid oedd y darnau hyn o wybodaeth wedi'u cysylltu â'i gilydd ac roeddent wedi'u hysgrifennu fel eitemau unigol; nid oeddent yn creu cynllun gofal a oedd yn cynnwys yr elfennau hyn o ofal cleifion nac yn cyfeirio at unrhyw ganllawiau NICE.

Roedd yn galonogol nodi, drwy ddarllen cofnodion Claf A a siarad ag aelodau o'r staff, bod dull gofalu ar waith a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd yn cynnwys safbwyntiau a dymuniadau aelod perthnasol o'r teulu.

Ar gyfer Claf B, roedd cynllun gofal lleihau risg ar waith a oedd wedi'i gwblhau i safon foddhaol a oedd hefyd yn ystyried dymuniadau'r claf o ran y dull atal corfforol i'w ddefnyddio pe byddai ei angen. Er bod y cynllun gofal hwn wedi'i gwblhau ar 12 Hydref 2018 ac wedi'i lofnodi gan y claf, dylid bod wedi'i adolygu erbyn 13 Tachwedd; nid oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod y broses hon wedi'i chwblhau.

Ar gyfer Claf C, roedd cynllun gofal manwl ar waith ar gyfer ôl-fflachiadau, dyddiedig 10 Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon wedi'i hadlewyrchu mewn cynllun cymorth ymddygiadol cadarnhaol (PBS). Roedd anghysondebau o ran rheoli a chofnodi maeth a deiet y claf hwn. Roedd ffeil iechyd corfforol y claf (a oedd yn cael ei chadw ar wahân gan nyrs practis y darparwr cofrestredig) yn cynnwys "cynllun prydau bwyd" a oedd yn nodi camau gweithredu i'w cymryd mewn perthynas â maeth y claf. Roedd ffurflenni arsylwi 24 awr hefyd ar waith ar gyfer y claf hwn, a oedd yn cynnwys cofnodi'r bwyd a'r diodydd yr oedd y claf yn ei fwyta ac yn eu hyfed. Dylai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei chyflwyno ar ffurf cynllun gofal penodol, ond nid oedd cynllun o'r fath ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan bob claf gynlluniau gofal cyfredol er mwyn rheoli'r risgiau a'r anghenion sy'n berthnasol i'r unigolyn hwnnw.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cynllun gofal yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac yn amserol (SMART).

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob cynllun gofal ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Yn ogystal, nodwyd gennym bod yr adran bwyd a diod ar y ffurflen arsylwi 24 awr ar gyfer Claf C ar 9 Rhagfyr yn wag, ac mai dim ond cyfeiriad syml at y ffaith bod y claf wedi cael digon o fwyd a diod a oedd yn nodiadau cyfoes y claf wrth gyfeirio at ei faeth a'i ddeiet ar gyfer y diwrnod hwnnw.

O ganlyniad, aeth y tîm arolygu ati i adolygu cofnodion arsylwi 24 awr pedwar claf arall ar gyfer y dyddiad hwnnw; roeddent yn anghyflawn o ran gwybodaeth am fwyd a diod, gydag uchafswm o ddau gofnod ar y ffurflen bwyd a diod ddyddiol a'r gweddill wedi'u gadael yn wag. Felly nid oedd yn glir naill ai nad oedd y cleifion wedi cael bwyd na diod ar yr adegau eraill hyn neu nad oedd y staff wedi cwblhau'r ffurflen. Os na fydd claf yn bwyta neu'n yfed, yna dylid dogfennu hyn yn glir yn hytrach na gadael y ffurflen yn wag. Yn yr un modd, rhaid hefyd nodi unrhyw borthiant deietegol.

Ar gyfer Claf C, gwnaethom adolygu'r ffurflenni arsylwi 24 awr ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2018 a 28 Tachwedd 2018. Nid oedd y ffurflenni arsylwi ar gyfer y cyfnod rhwng 25 Hydref a 5 Tachwedd ar gael i'w hadolygu, felly ni allwn fod yn sicr iddynt gael eu cwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl ddogfennaeth ei chwblhau'n llawn er mwyn adlewyrchu'r bwyd a'r diod a gaiff y claf.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob ffurflen arsylwi 24 awr ei ffeilio'n briodol.

Ar 19 Tachwedd 2018, roedd y darparwr cofrestredig wedi dechrau gweithdrefn drosglwyddo ddyddiol ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol fel rhan o'r broses o adolygu newidiadau a datblygiadau mewn perthynas ag anghenion gofal unigol y cleifion yn yr ysbyty. Ar 23 Tachwedd, nodwyd a chytunwyd bod angen clinig, addysg a gwybodaeth iechyd rhywiol ar gleifion yn yr ysbyty, ac y dylid datblygu hyn o fewn cynllun gofal ar gyfer pob claf; nid oedd y gwaith hwn wedi dechrau ar adeg ein harolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynllun gofal cyfredol ar waith ar gyfer pob claf mewn perthynas ag iechyd rhywiol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau llywodraethu ar waith i gadarnhau y caiff camau gweithredu y cytunnir arnynt gan y tîm amlddisgyblaethol eu rhoi ar waith mewn modd amserol.

Gwnaethom adolygu Polisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol y darparwr cofrestredig, dyddiedig Hydref 2018. Nid oedd y ddogfen hon yn adlewyrchu'r arfer cyfredol a oedd ar waith yn yr ysbyty na'i statws fel darparwr gofal iechyd annibynnol. Drwy gydol y polisi, roedd cyfeiriadau at "fwrdd iechyd" ac roedd yn cynnwys manylion strwythurau a phrosesau'r bwrdd iechyd, megis proses gwyno "Gweithio i Wella" GIG Cymru. Roedd y polisi hefyd yn cyfeirio mewn manau at y cleifion fel oedolion ac yn cyfeirio at y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, nad ydynt yn berthnasol i unigolion o dan 18 oed.

Roedd y polisi hefyd yn cyfeirio at atal unigolion yn gorfforol drwy eu rhoi i orwedd ar eu bol ar y llawr, er gwaethaf sicrwydd gan y darparwr cofrestredig, yn ystod yr arolygiad hwn ac arolygiadau blaenorol, na chaiff y dull atal corfforol hwn ei ddefnyddio yn yr ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ei Bolisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol yn adlewyrchu'r arfer cyfredol sydd ar waith yn yr ysbyty fel darparwr gofal iechyd annibynnol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ei Bolisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol wedi'i ysgrifennu mewn perthynas â darparu gofal i unigolion o dan 18 oed.

Gwnaethom adolygu sampl fawr o gofnodion llonyddu ac atal corfforol ar gyfer y ddeufis blaenorol; nodwyd anghysondebau o ran arfer y staff a safonau cyson wael o ran cadw cofnodion.

Roedd cofnodion llonyddu ac atal corfforol yn cael eu cwblhau a'u cynnal fel cofnodion papur, ac yn cael eu cadw o fewn ffeil(iau) ar gyfer y mis priodol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system ffeilio systemataidd yn y ffeiliau misol unigol ac nid oedd y cofnodion llonyddu ac atal corfforol wedi'u rhifo/catalogio. O ganlyniad, nid oedd modd adolygu'r ffurflenni a gwblhawyd yn hawdd na chael sicrwydd bod pob ffurflen yn bresennol a bod pob digwyddiad llonyddu ac atal corfforol wedi'i gofnodi. Roedd cofnod yng nghofnod cyfoes un claf o ddull diogel o ddal ei ddwylo ond nid oedd y ffurflen atal corfforol gyfatebol ar gael; felly naill ai ni chwblhawyd y ffurflen honno neu fe'i collwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ffeilio a chatalogio systemataidd ar waith ar gyfer cofnodion llonyddu ac atal corfforol er mwyn sicrhau y caiff pob cofnod ei storio ac y gellir cael gafael arno'n hawdd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob enghraifft o lonyddu ac atal corfforol ei chofnodi ar y gwaith papur cysylltiedig yn ogystal â'r cofnod cyfoes.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi cyflwyno arfer "Stopio'r Cloc" o ran atal corfforol; lle na fyddai'r staff, pe byddai'n ddiogel peidio â gwneud hynny, yn atal claf yn gorfforol am fwy na 9 munud.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r staff yn dogfennu pob cyfnod atal corfforol naw munud o hyd ar y ffurflen, gan ddefnyddio mapiau corff, hyd yn oed pe na chât'r claf ei ryddhau. Roedd aelodau eraill o staff yn dogfennu'r cyfnod atal corfforol llawn ar un map corff er mwyn adlewyrchu'r cyfnod gwirioneddol o amser y bu'r claf a'r staff yn y sefyllfa honno. Nid oedd unrhyw gysondeb yn yr ysbyty o ran pa ddull y dylid ei ddefnyddio i ddogfennu'r cyfnod atal corfforol.

Fel rhan o'r arfer "Stopio'r Cloc", cawsom wybod fod penderfyniad yn cael ei wneud o ran p'un a ddylai'r staff ryddhau'r claf o'r dull atal os oedd yn ddiogel gwneud hynny neu barhau i'w atal. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod o'r broses hon ar gyfer gwneud y penderfyniad, felly nid oedd yn amlwg sut roedd staff yn penderfynu p'un a ddylid rhyddhau'r claf neu barhau i'w atal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau'r map corff ar y ffurflen atal corfforol yn gyson er mwyn cofnodi'r cyfnod atal corfforol cywir.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn dogfennu'r penderfyniad o ran p'un a yw'n ddiogel i ryddhau'r claf neu p'un a ddylid parhau i'w atal fel rhan o'r arfer "Stopio'r Cloc" ac fel y manylir yn y polisi cysylltiedig.

Nid oedd y ffurflenni atal corfforol yn nodi'n glir y dylid atal cleifion yn gorfforol ar y llawr ar eu cefn ('supine' yn Saesneg) yn hytrach nag ar eu bol. Mae angen cynnwys y wybodaeth hon er mwyn i'r darparwr cofrestredig fod yn dawel ei feddwl na chaiff cleifion eu hatal ar eu bol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y ffurflenni atal corfforol yn dogfennu'n glir mai dim ond ar eu cefn (wyneb i fyny) y dylid atal cleifion ar y llawr ('supine' yn Saesneg).

Gwnaethom adolygu cofnodion cyfoes dyddiol pedwar claf. Er bod nifer o gofnodion manwl a oedd wedi'u cwblhau i safon broffesiynol uchel, ar y cyfan, roedd ansawdd y cofnodion yn wael ac nid oeddent yn adlewyrchu safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i nyrsys, bydwagedd a gweithwyr nyrsio cyswllt. Yn aml, roedd y cofnodion yn y cofnod cyfoes yn gryno ac nid oeddent yn adlewyrchu cyflwr y claf na'r gofal a ddarparwyd yn llawn. Nid oedd pob cofnod yn y cofnodion cyfoes yn cynnwys enw, llofnod a phroffesiwn yr aelod o staff.

Yn dilyn arolygiad blaenorol, lle y gwnaethom nodi methiannau wrth gwblhau cofnodion cyfoes, roedd y darparwr cofrestredig wedi rhoi trefn fisol ar waith i archwilio'r cofnodion hyn. Fodd bynnag, daeth y broses archwilio hon i ben ym mis Hydref 2018. Mae angen ailweithredu'r broses hon er mwyn nodi'r achosion o gwblhau cofnodion cyfoes yn wael yn yr ysbyty ac ymdrin â nhw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cyfoes eu cwblhau mewn modd cynhwysfawr ac yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ailweithredu'r broses o archwilio cofnodion cyfoes.

Fel y nodwyd yn gynharach, nid oedd y ffurflenni llonyddu ac atal wedi'u rhifo; felly roedd yn anodd cyfateb ffurflenni unigol â'r cofnodion yn y cofnod cyfoes. Yn ogystal, lle roedd cofnodion yn y cofnodion cyfoes, nid oedd y cofnodion hyn yn nodi amser y digwyddiad llonyddu neu atal. Yn wir, dim ond yr amser y gwnaed y cofnod a gofnodwyd.

Wrth groesgyfeirio ffurflenni llonyddu ac atal i'r cofnodion cyfoes, roedd sawl enghraifft lle nad oedd y cofnod cyfoes yn cynnwys manylion pob achos o lonyddu neu atal a oedd wedi digwydd ar y diwrnod hwnnw. Ar rai diwrnodau, ni chofnodwyd unrhyw achosion o lonyddu neu atal yn y cofnodion cyfoes er gwaethaf y ffaith bod ffurflen llonyddu ac atal wedi'i chwblhau.

Yn ogystal, roedd cofnodion ar gyfer achosion o atal yn y cofnod cyfoes a oedd yn nodi bod y cyfnod atal wedi para am gyfnod sylweddol fyrrach na'r cyfnod a nodwyd ar y ffurflen atal. Roedd un cofnod yn nodi bod y cyfnod atal wedi para tua 30 munud ond nodwyd ar y ffurflen atal fod y cyfnod atal wedi para 68 munud. Roedd cofnod cyfoes arall yn nodi bod cyfnod atal wedi para 5 munud ond nodwyd ar y ffurflen atal fod y cyfnod atal wedi para 27 munud.

Felly, nid oedd y cofnodion cyfoes yn adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd wrth ddarparu gofal i'r cleifion yn gywir, yn enwedig o ran llonyddu ac atal. At hynny, nid oedd y rhan fwyaf o'r cofnodion yn y cofnodion cyfoes yn cyrraedd y safonau a bennwyd gan God y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob achos o lonyddu ac atal ei gofnodi'n gywir yng nghofnod cyfoes y claf, gan gynnwys amser a hyd y digwyddiad atal.

Gwnaethom adolygu'r broses o ddogfennu meddyginiaeth PRN yn y cofnodion cyfoes gan fod hyn yn un o fethiannau'r darparwr cofrestredig yn flaenorol. O'r sampl o gofnodion ar gyfer meddyginiaethau PRN a adolygwyd gennym, llwyddwyd i gadarnhau bod pob enghraifft wedi'i chofnodi'n glir ac yn gywir yn y cofnodion cyfoes.

Gwnaethom adolygu samplau o ffurflenni awdurdodi ²Absenoldeb Adran 17, a oedd hefyd wedi'u cwblhau fel sy'n ofynnol.

² Mae Absenoldeb Adran 17 yn awdurdodi claf a gadwyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl i gael cyfnod o absenoldeb o'r ysbyty.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Ers ein harolygiad ym mis Medi 2018, penodwyd Cyfarwyddwr newydd ar gyfer yr ysbyty. Roedd Rheolwr Gyfarwyddwr newydd ei benodi a oedd wrthi'n gwneud cais i AGIC i gael ei benodi'n Rheolwr Cofrestredig. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid wrthi'n gwneud cais i AGIC i gael ei benodi'n Unigolyn Cyfrifol. Roedd Arweinydd Clinigol a Rheolwr Ward newydd hefyd wedi'u penodi ers i'r cyflogeion a oedd yn y swyddi hynny yn flaenorol adael yn ddiweddar.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi ymgymryd â phroses i recriwtio nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd ac roedd y broses honno'n parhau. Yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad, roedd y darparwr cofrestredig wedi recriwtio nyrsys cofrestredig, yr oedd rhai ohonynt yn cael eu defnyddio drwy asiantaeth, i gael eu cyflogi a'u rheoli'n uniongyrchol gan yr ysbyty. Felly ar adeg yr arolygiad, nid oedd y darparwr cofrestredig yn dibynnu ar ddefnyddio staff asiantaeth i lenwi rotas staffio.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi cyflwyno proses sefydlu ddiwygiedig ar gyfer pob aelod o'r staff yn ddiweddar, a chawsom wybod y byddai'r broses honno yn fanylach na'r broses sefydlu flaenorol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw aelod o'r staff wedi cwblhau'r broses hon, felly nid oedd modd i ni werthuso'r broses sefydlu ar hyn o bryd.

Roedd yn galonogol ein bod wedi gweld y staff, drwy gydol yr arolygiad, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd yr ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol i'r staff yn dangos tystiolaeth o lefelau cydymffurfiaeth uchel iawn. Lle roedd hyfforddiant ar fin dirwyn i ben, roedd hyn yn cael ei nodi a'i fonitro er mwyn sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant mewn modd amserol.

Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr newydd wedi rhoi prosesau llywodraethu a threfniadau adrodd newydd ar waith ar gyfer yr ysbyty. Gan mai dim ond yn ystod y deufis blaenorol y cafodd y prosesau hyn eu rhoi ar waith, mae angen rhagor o amser i werthuso'r effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael ar drefniadau rheoli, arwain a llywodraethu'r ysbyty. O adolygu cofnodion amrywiol gyfarfodydd

llywodraethu a gynhaliwyd hyd yn hyn, nid oedd amserlen benodol wedi'i nodi ar gyfer pob cam gweithredu neu nid oedd unigolyn (unigolion) cyfrifol wedi'u dynodi i'w rhoi ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod camau gweithredu yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac yn amserol (SMART) a nodi unigolyn (unigolion) cyfrifol i'w rhoi ar waith.

4. Beth nesaf?

Lle y gwnaethom nodi gwelliannau yn ystod yr arolygiad hwn y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu mewn ymateb iddynt, mae'n ofynnol i'r darparwr gwblhau'r cynllun gwella yn Atodiad A. Wrth gwblhau'r cynllun gwella, dylai'r darparwr cofrestredig wneud y canlynol:

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

O ran cofrestriad parhaus Regis Healthcare Limited, bydd AGIC bellach yn ystyried, ar y cyd â'r sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan y darparwr mewn ymateb i Hysbysiad AGIC o Fwriad i ddiddymu'r cofrestriad, ganfyddiadau'r arolygiad hwn ac ymateb y darparwr cofrestredig. Wedyn, defnyddir y broses hon i benderfynu p'un a yw AGIC yn cadarnhau'r Hysbysiad o Fwriad ac yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad i ddiddymu'r cofrestriad neu p'un a dderbynnir y sylwadau ac y caiff yr Hysbysiad o Fwriad ei ddiddymu.

Yn y cyfamser, fel y nodwyd yn gynharach, bydd Regis Healthcare yn parhau'n ddarostyngedig i drefniadau craffu ar y lefel uchaf; bydd AGIC yn monitro'r gwasanaeth yn agos ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chomisiynwyr y cleifion sydd yn yr ysbyty.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Regis Healthcare Ltd

Wardiau: Brenin

Dyddiad arolygu: 9 – 11 Rhagfyr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn drefnus a'u bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.	15(1), 19(1)(a) a (b)	Ar adeg ymateb i'r eitem hon, mae Ysbyty Hillview wrthi'n symud i broses cofnodion electronig (Nodiadau Gofal)	Steven Dyton-Thomas Cyfarwyddwr Cyllid / Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth	Dyddiad Gosod Targed 28 Chwefror 2019 Dyddiad Gweithredu Targed 31 Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cytunnir ar fformat ar gyfer cynlluniau gofal yn yr ysbyty ac y caiff y fformat hwn ei ddefnyddio.	19(1)(a) a (b)	Yn seiliedig ar adborth llafar o'r arolygiad dirybudd, cytunwyd ar fformat ar gyfer cynlluniau gofal ac fe'i rhoddwyd ar waith.	Angela Mason Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan bob claf gynlluniau gofal cyfredol er mwyn rheoli'r risgiau a'r anghenion sy'n berthnasol i'r unigolyn hwnnw.	15(1), 19(1)(a) a (b)	Rydym yn diweddarau ac yn adolygu ein cynlluniau gofal yn gyson ar sail anghenion clinigol, a/neu bob mis.	Angela Mason Rheolwr y Ward	Bob mis neu pan fydd angen newid Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cynllun gofal yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac yn amserol (SMART).	15(1), 19(1)(a) a (b)	Cyflwynwyd hyn yn dilyn yr arolygiad dirybudd. Mae'r tîm wedi bod yn cydymffurfio â dull gweithredu amcanion SMART.	Angela Mason Rheolwr y Ward	Bob mis neu pan fydd angen newid Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob cynllun gofal ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.	15(1), 19(1)(a) a (b)	Cyflwynwyd hyn yn dilyn yr arolygiad dirybudd. Mae'r tîm wedi bod yn cydymffurfio â dull gweithredu amcanion SMART.	Angela Mason Rheolwr y Ward	Bob mis neu pan fydd angen newid Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl ddogfennaeth ei chwblhau'n llawn er mwyn adlewyrchu'r bwyd a'r diod a gaiff y claf.	15(1), 19(1)(a) a (b)	Rydym wedi cyflogi deietegydd ac mae gan bob claf siart bwyd a diod erbyn hyn. Diweddarwyd y siartiau hyn er mwyn cydymffurfio â rheoliadau.	Uwch Weithwyr Cymorth	Bob dydd Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob ffurflen arsylwi 24 awr ei ffeilio'n briodol	15(1), 19(1)(a) a (b)	Mae'r Nyrs â Chyfrifoldeb yn gyfrifol am sicrhau y caiff y ffurflenni arsylwi eu cwblhau'n gywir a'u ffeilio yn y ffeil trosglwyddo nyrsys.	Angela Mason Rheolwr y Ward	Bob dydd Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynllun gofal cyfredol ar waith ar gyfer pob claf mewn perthynas ag iechyd rhywiol.	15(1), 19(1)(a) a (b)	Nodwyd bod gan nifer o'r cleifion anghenion iechyd rhywiol. Mae cynllun gofal ar waith ar gyfer pob un o'r cleifion hyn. Pan ddaw'n amlwg bod gan glaf anghenion iechyd rhywiol, caiff cynllun gofal ei lunio.	Vicky Jones Nyrs Gyffredinol Gofrestredig	Bob mis neu pan fydd angen newid Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau llywodraethu ar waith i gadarnhau y caiff camau gweithredu y cytunnir arnynt gan y tîm amlddisgyblaethol eu rhoi ar waith mewn modd amserol.	15(1), 19(1)(a)	Mae rheolwr ward newydd yn y swydd, defnyddir templed newydd sy'n gwneud cofnod dyddiol. Cynlluniwyd archwiliadau wythnosol a misol er mwyn sicrhau y caiff y camau gweithredu y cytunnir arnynt gan y tîm amlddisgyblaethol eu rhoi ar waith mewn modd amserol.	Angela Mason Rheolwr y Ward	Dyddiol Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ei Bolisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol yn adlewyrchu'r arfer cyfredol sydd ar waith yn yr ysbyty fel darparwr gofal iechyd annibynnol.	15(1), 16(2)(b), 19(1)(a) a (b)	Yn dilyn ein harolygiad, rydym wedi diweddarau ein Polisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol.	Dr Clair Wright Cyfarwyddwr yr Ysbyty Angela Mason	Dyddiol Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Rheolwr y Ward	
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ei Bolisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol wedi'i ysgrifennu mewn perthynas â darparu gofal i unigolion o dan 18 oed.	15(1), 16(2)(b), 19(1)(a) a (b)	Yn dilyn ein harolygiad, rydym wedi diweddaru ein Polisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol.	Enock Mhindurwa Rheolwr Gyfarwyddwr Steven Dyton-Thomas Cyfarwyddwr Cyllid	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ffeilio a chatalogio systemataidd ar waith ar gyfer cofnodion llonyddu ac atal corfforol er mwyn sicrhau y caiff pob cofnod ei storio ac y gellir cael gafael arno'n hawdd.	15(1), 16(2)(b), 19(1)(a) a (b)	Hyd nes y cafwyd yr adborth hwn, roedd cofnodion atal corfforol yn cael eu ffeilio gyda'i gilydd mewn ffeiliau a oedd yn ymwneud â mis penodol. Bellach caiff ffeiliau ar wahân eu creu ar gyfer pob person ifanc a chaiff y ddogfennaeth atal a llonyddu ei storio mewn adrannau ar wahân o'r ffeil hon ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Ar adeg ysgrifennu'r cynllun gweithredu hwn, mae Ysbyty Hillview wrthi'n symud o ddogfennaeth papur i system cofnodion electronig (Nodiadau Gofal / Datix).	Dr Clair Wright Cyfarwyddwr yr Ysbyty	I'w gwblhau erbyn 1 Chwefror 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob enghraifft o lonyddu ac atal corfforol ei chofnodi ar y gwaith papur cysylltiedig yn ogystal â'r cofnod cyfoes.	15(1), 16(2)(b), 19(1)(a) a (b)	Yn dilyn adborth llafar o arolygiad dirybudd mis Rhagfyr 2018, cyflwynwyd system gatalogio newydd. Bellach, rhoddir rhif cyfeirnod i bob ffurflen. Ar ôl pob digwyddiad, caiff ffurflen ei chwblhau a chofnodir y manylion yn y nodiadau cyfoes, gyda'r unigolyn sydd wedi cwblhau'r ffurflen yn dyfynnu rhif cyfeirnod y ffurflen.	Dr Clair Wright Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau'r map corff ar y ffurflen atal corfforol yn gyson er mwyn cofnodi'r cyfnod atal corfforol cywir.	15(1), 16(2)(b), 19(1)(a) a (b), 23(1)(a)(i)	Yn dilyn adborth llafar o arolygiad dirybudd mis Rhagfyr 2018, eglurwyd y dylid cwblhau map corff newydd ar y ddogfennaeth atal bob tro y caiff y dwylo eu tynnu oddi ar y corff er mwyn sicrhau arfer cyson.	Dr Clair Wright Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn dogfennu'r penderfyniad o ran p'un a yw'n ddiogel i ryddhau'r claf neu p'un a ddylid parhau i'w atal fel rhan o'r arfer "Stopio'r Cloc" ac fel y manylir yn y polisi cysylltiedig.	15(1), 16(2)(b), 19(1)(a) a (b), 23(1)(a)(i)	Caiff adran ei hychwanegu at y ffurflenni atal yn ei gwneud yn ofynnol dogfennu'r penderfyniad i roi'r gorau i atal yr unigolyn neu i barhau i'w atal.	Dr Clair Wright Cyfarwyddwr yr Ysbyty	I'w gwblhau erbyn 1 Chwefror 2019
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y ffurflenni atal corfforol yn dogfennu'n glir mai	15(1), 16(2)(b), 19(1)(a) a (b)	Yn dilyn yr arolygiad dirybudd ym mis Rhagfyr 2018 a'r adborth llafar a	Dr Clair Wright	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dim ond ar eu cefn (wyneb i fyny) y dylid atal cleifion ar y llawr ('supine' yn Saesneg).		roddwyd, diwygiwyd pob ffurflen digwyddiad i ddynodi y dylid cynnal pob achos o atal unigolyn ar y llawr drwy ei osod ar ei gefn.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cyfoes eu cwblhau mewn modd cynhwysfawr ac yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion	15(1), 19(1)(a), 23(1)(a)(i)	Yn dilyn yr arolygiad, rydym wedi dwysau ein proses er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau rheoliadol drwy gynnal archwiliad cadarn o'r nodiadau cyfoes a'r holl gofnodion ysgrifenedig.	Angela Mason Rheolwr y Ward Dr Clair Wright Cyfarwyddwr yr Ysbyty Enock Mhindurwa Rheolwr Gyfarwyddwr	Bob dydd Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig ailweithredu'r broses o archwilio cofnodion cyfoes.	15(1), 19(1)(a), 23(1)(a)(i)	Mae Adnodd Archwilio Nodiadau Cyfoes ar waith.	Angela Mason Rheolwr y Ward	Bob wythnos Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob achos o lonyddu ac atal ei gofnodi'n gywir yng nghofnod cyfoes y claf, gan gynnwys amser a hyd y digwyddiad atal.	15(1), 19(1)(a), 23(1)(a)(i)	Yn dilyn adborth llafar o'r arolygiad dirybudd ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyflwyno system lle mae'r aelod o'r staff sy'n cwblhau'r ddogfennaeth llonyddu ac atal yn gwneud cofnod yn y cofnod cyfoes yn crynhoi'r digwyddiad. Wrth symud	Angela Mason Rheolwr y Ward	Dyddiol Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ymlaen, byddwn yn sicrhau bod hyn yn cynnwys amser a hyd y digwyddiad atal. Wedyn, mae nyrs gymwys yn gwrthlofnodi'r cofnod hwn.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod camau gweithredu yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac yn amserol (SMART) a nodi unigolyn (unigolion) cyfrifol i'w rhoi ar waith.	15(1), 19(1)(a) a (b)	Mae darparwr y gwasanaeth yn ymwybodol nad oedd y ddogfennaeth flaenorol yn bodloni gofynion SMART yn ddigonol. Mae'r holl ddogfennaeth glinigol bellach yn adlewyrchu hyn.	Steven Thomas Dyton-	Bob mis Parhaus

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Enock Mhindurwa

Teitl swydd: Rheolwr Gyfarwyddwr

Dyddiad: 31 Ionawr 2019